GWERTHOEDD PWY 'RWYT TI'N EU HARDDEL?

Nodyn i'r siaradwr:
Beth bynnag fo'n nod, heb berthynas dda gyda Jehofah, Rhoddwr bywyd, dros dro yn unig fydd unrhyw lwyddiant a gawn. Helpwch y gynulleidfa i werthfawrogi hyn. Gan fod cysylltiad agos rhwng ein gwerthoedd a'n hamcanion, daw budd a lles bythol o fabwysiadu gwerthoedd y Beibl

MAE'R RHAN FWYAF O BOBL YN CHWILIO AM WERTHOEDD SY'N RHOI YSTYR I FYWYD (5 mun.)

Mae'n naturiol dymuno cyflawni rhywbeth teilwng sy'n dod â boddhad inni (Preg 2:24a)

'Rydym yn ceisio ymgyrraedd at nodau gan obeithio y bydd llwyddiant yn dod â bodlonrwydd o'u cyflawni

Mae'n gwerthoedd yn penderfynu beth ydi'n bwriadau a'n blaenoriaethau ni

Os oes gwerthoedd teilwng gennym, bydd ein hamcanion yn deilwng ac yn rhai y medrwn eu cyflawni (Phil 1:10, 11; *w*04 7/15 21-3)

Dim ond siom fydd yn ein disgwyl os byddwn yn trysori pethau diwerth ac yn canlyn nodau annheilwng (Diar 12:11)

Da o beth fyddai dadansoddi'n gwerthoedd i sicrhau i ble maen 'nhw'n ein harwain

MAE AMCANION Y MWYAFRIF YN ADLEWYRCHU GWERTHOEDD Y BYD (10 mun.)

Gan fod arian a chyfoeth yn golygu gymaint i lawer o bobl heddiw, mae eu bryd ar bethau materol, megis sicrhau swydd sy'n talu'n dda, a buddsoddi enillion i gynhyrchu elw proffidiol

Mae trefnu'n bywydau i droi o amgylch nodau materol yn arwain at siom (Diar 23:4, 5; 1Tim 6:9, 10; *w*02 4/15 5-6)

Dangosodd Iesu ffolineb dilyn amcanion felly (Luc 12:15-21)

I rai, bod yn enwog, neu bod yn amlwg, neu gael eu nabod, sy'n bwysig, ac er mwyn sicrhau hyn efallai eu bod nhw'n dilyn cwrs addysg uwch neu'n meithrin talentau neu sgiliau arbennig

Mae nodau addysgol yn rhoi pwyslais ar dderbyn dysg y bydol-ddoeth

Mor wag yw doethineb y byd yn arbennig o'i gymharu â doethineb Duw (1Cor 3:18, 19; Col 2:3, 8, 9)

Mae dilyn trywydd enwogrwydd yn esgor ar ysbryd cystadleuol, sy'n achosi rhaniadau a chynnen (Gal 5:26)

Mae enwogrwydd yn pylu, ac ni all roi bywyd i'w berchennog (Preg 2:16)

Mae'r byd yn rhoi bri ar ormodedd o adloniant

Mae hyn yn adlewyrchu eu diffyg gobaith (1Cor 15:32)

Mae'n amlwg o ystyried y ffordd mae llawer yn ymddwyn, nad ydynt yn eu hystyried eu hunain yn atebol am sut maent yn defnyddio'u corff (2Cor 5:10)

Mae dilyn pleserau'r byd yn arwain at wacter; nid yw'n dod â bodlonrwydd sy'n parhau (Diar 21:17)

RHAGORIAETH GWERTHOEDD Y BEIBL (20 mun.)

Gan nad oes werth i ddim byd heb fywyd, y gwerthoedd rhagoraf yw'r rhai sy'n gysylltiedig â sicrhau perthynas dda gyda Rhoddwr bywyd (Salm 63:3; *w*01 10/15 17-18)

Er mwyn cynnal y berthynas honno mae gofyn eich bod yn:

Derbyn gwybodaeth am Jehofah a'i fwriadau, gan ddod o hyd i ddoethineb a deall dwyfol (Diar 3:13–18; Ioan 17:3)

Gwneud ewyllys Duw (Ioan 4:34; 1Ioan 2:17)

Ufuddhau i ddeddfau Duw a'i orchmynion (Diar 3:1, 2; Preg 12:13, 14)

Meithrin rhinweddau dwyfol (Micha 6:8; Gal 5:22, 23)

Mae'r Beibl yn rhoi pwyslais ar amcanion ysbrydol (*w*04 10/15 3-7)

Tra bod y byd yn annog casglu cyfoeth, ein dysgu i fod yn hael a bod yn barod i rannu mae'r Beibl (1Tim 6:17-19)

Felly, yn hytrach na cheisio pethau materol, rhown Deyrnas Dduw yn gyntaf, gan sicrhau fod ein hamser, ein hegni, a'n pethau gwerthfawr ar gael i hyrwyddo hyn (Math 6:19-34; *w*99 4/1 6-7)

Nid yw enwau dynion yn para'n hir yn y cof, ond fe gofir am y sawl mae Duw yn eu nabod, ac mae ganddynt sail gobaith byw am byth (Preg 9:15; Mal 3:16)

Mae'n dilyn felly y dylem ymdrechu i wneud penderfyniadau yn ein byw bob dydd fydd yn help inni wneud enw da gyda Duw (Preg 7:1; *w*03 8/15 3)

Dros dro yn unig yw'r boddhad a ddaw o ddilyn difyrrwch y byd, ond daw gwir lawenydd inni wrth ddilyn gwerthoedd duwiol gyda sail gobaith bod yn hapus am byth

Felly, ymdrechwn i fyw a gweithio ag eraill yn ysbryd cariad ac undod (Salm 133:1; Col 3:12–14)

CEISIWCH Y PETHAU GWERTHFAWR A DDAW Â GWOBR DRAGWYDDOL (10 mun.)

Mae'n hanfodol ein bod ni'n ystyried pethau o safbwynt ysbrydol yn hytrach nag o safbwynt anianol (1Cor 2: 14-16)

Mae'r hyn sy'n anianol yn rhoi pwyslais ar nodau byrhoedlog nad oes ganddynt lawer i'w gynnig

Mae'n rhoi gwerth mawr ar bethau a fydd, cyn bo hir, yn mynd heibio (1Ioan 2:15-17)

Buan daw bywydau sy'n troi o amgylch gwerthoedd fel hyn, i ben

Ond o ystyried y cyfan o agwedd ysbrydol daw'r hyn sydd o wir werth i'r amlwg (Phil 3:7, 8)

Eisoes mae dilyn amcanion Ysgrythurol wedi sicrhau tawelwch meddwl, perthynas gariadus, a gwaith sy'n rhoi bodlonrwydd ymysg pobl Jehofah (Diar 2:6-9)

Mae dyfodol hapus, diogel yn sicr yn disgwyl y rhai sy'n trysori gwerthoedd y Beibl (Salm 16:11)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellir, a chadw at yr amser a bennwyd ar gyfer pob adran. Does dim rhaid darllen na thrafod pob testun a grybwyllir)

© 2005 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania